CYNGHRAIR CANSER CYMRU MANIFFESTO ETHOLIADAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU 2007

Pwy ydym ni?

Mae Cynghrair Canser Cymru, a sefydlwyd yn 2006, yn ceisio hyrwyddo'r driniaeth, yr ymchwil, y gofal a'r mesurau gorau i atal canser ar gyfer pobl Cymru. Mae'r Gynghrair yn cynnwys sefydliadau canser gwirfoddol blaenllaw sy'n dymuno cael effaith gadarnhaol ar ddeddfwriaeth, llunio polisïau, adnoddau a gwasanaethau ar gyfer y bobl yr effeithir arnynt gan ganser yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae'r Gynghrair yn cynnwys Breast Cancer Care Cymru, Cancer Care Cymru, Cancer Research UK, Cymorth Canser Macmillan, Gofal Canser Marie Curie a Tenovus - the cancer charity. Gyda'n gilydd, rydym yn buddsoddi tua £15m bob blwyddyn mewn ymchwil a gwasanaethau canser yng Nghymru.

Beth yw'r maniffesto?

Nod y maniffesto yw mynd i'r afael â'r prif faterion sy'n wynebu pobl Cymru heddiw o ran gwasanaethau canser. O fewn y ddogfen hon ceir cynigion realistig a chyraeddadwy ar gyfer datblygu gwasanaethau canser teg, o safon ryngwladol, y mae bobl Cymru'n eu haeddu. Ei nod yw cael effaith ar ddyfodol darpariaeth ymchwil a gofal canser yng Nghymru ac i godi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â chanser ymhlith gwleidyddion, y cyfryngau a'r cyhoedd yn ystod y cyfnod ymgyrchu etholiadol ac wedi hynny.

Saith o faterion allweddol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol 2007

Mae Cynghrair Canser Cymru yn annog Llywodraeth nesaf Cynulliad Cymru i weithredu ar unwaith i ateb y saith mater allweddol canlynol er mwyn sicrhau gwasanaethau canser 'o safon ryngwladol' ar gyfer pobl Cymru:

Cynllun Canser i Gymru

Ar hyn o bryd mae gan Gymru blethora o bolisïau, ac eto i gyd mae wedi methu â chynhyrchu gweledigaeth un-stop â ffocws iddi a fyddai'n sicrhau cyflenwi'r gwasanaethau canser gorau posibl ar gyfer pobl Cymru. Mae angen Cynllun Canser i Gymru - cynllun cynhwysfawr, sy'n canolbwyntio ar y claf, gyda chyllid sydd wedi'i neilltuo er mwyn cyfuno'r polisïau, safonau a strategaethau presennol.

Mwy o fuddsoddi yn y gweithlu canser

Gyda llawer o ganserau erbyn hyn yn cael eu rheoli fel cyflyrau cronig, ni fu'r angen am fwy o fuddsoddi yng nghynllunio a hyfforddi'r gweithlu erioed yn bwysicach. Mae'n hanfodol diogelu swyddi presennol yn ogystal â datblygu mentrau newydd. Mae hyn yn wir am bob cam o ddarparu gofal - o gynlluniau ataliol hyd at ofal diwedd oes.

Gwella diagnosis cynnar

Mae'n hanfodol bod mwy o gyfleusterau sgrinio a chyfleusterau diagnostig ar gael ar gyfer holl bobl Cymru er mwyn cynyddu cyfraddau goroesi. Rhaid sicrhau mwy o gydweithredu rhwng y Llywodraeth, elusennau canser a'r cyfryngau er mwyn addysgu pobl ynghylch symptomau canser yn ogystal â'r angen am sgrinio, yn arbennig felly ymysg grwpiau sydd wedi'u hallgau'n gymdeithasol neu grwpiau lleiafrifol.

Cynnig cyfle o ran gofal diwedd oes

Mae gofal lliniarol cymunedol yn flaenoriaeth er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag marw gartref. Mae hynny'n golygu sicrhau bod y wybodaeth a'r adnoddau cywir ar gael i gleifion a'u gofalwyr. Dylai cleifion sy'n derfynol wael allu byw a marw lle mynnont, lle bynnag bo hynny'n bosibl.

Mwy o fuddsoddi ac ymchwil o ran atal a brechlynnau

Gellir priodoli hanner yr enghreifftiau o ganser sy'n cael eu darganfod i faterion sy'n ymwneud â ffordd o fyw. Bydd cynyddu'r swm sy'n cael ei wario ar atal canser ac ymchwil briodol yn lleihau costau triniaeth canser hirdymor ac yn achub bywydau. Er enghraifft, mae angen cynllunio ymlaen er mwyn sefydlu'r manteision i iechyd a'r manteision cymdeithasol ac economaidd o gyflwyno rhaglen frechu HPV.

Mwy o fuddsoddi mewn ymchwil a threialon clinigol

Byddai datblygu ymgyrch gwybodaeth i gleifion genedlaethol yn benodol ynghylch treialon clinigol ar gyfer canser yn cynorthwyo mwy o gleifion i wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â'u dewisiadau o ran triniaeth. Mae sicrhau mwy o gyllid gan y Llywodraeth er mwyn datblygu'r model Canolfannau Clinigol, gan dargedu hyfforddiant clinigol, treialon clinigol cynnar a chymorth seilwaith craidd yn benodol. Mae annog ymarferwyr Gofal Sylfaenol i gynnal ymchwil canser hefyd yn hanfodol.

Cymryd gofal cymdeithasol o ddifrif

Mae 91% o gartrefi cleifion canser yn colli incwm o ganlyniad uniongyrchol i ddiagnosis o ganser. Dylai pob claf canser gael cynnig / gael ei atgyfeirio ar gyfer cyngor arbenigol ynghylch budd-daliadau pan fydd yn derbyn gofal. Mae angen rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r Cynllun Costau Teithio i Ysbytai (HTCS) a gofalu ei fod ar gael i bob claf canser.

Mae maniffesto manwl ar gael ar wefan pob elusen sy'n aelod o'r Gynghrair

BREAST CANCER CARE CYMRU

cancer care cymru

CANCER RESEARCH UK

NI YW MACMILLAN. CYMORTH CANSER

Marie Curie Cancer Care

tenovus the cancer charity